# Adroddiad Arolygu

Clwb Allysgol Corneli Sger Out of School Club

**Canolfan Blant Integredig Corneli**

**Greenfield Terrace**

**Gogledd Corneli**

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**CF33 4LW**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

# Clwb Allysgol Corneli Sger Out of School Club

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Dorothy Lawson |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw]<br>6 Awst 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus oherwydd bod eu dymuniadau yn cael eu hystyried. Maent yn teimlo'n hapus ac yn cael cyfleoedd da a phriodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.
Mae'r plant yn annibynnol ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain yn hyderus.

Mae'r staff yn deall polisïau'r lleoliad ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant y plant.
Mae'r staff yn rheol risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant.
Maent yn fodelau rôl da, gan eu bod yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn meithrin hyder a hunan-barch y plant sy'n cael gofal ganddynt.

Mae'r bobl sy'n gyfrifol am redeg y lleoliad yn rhoi mesurau effeithiol ar waith ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch y plant.
Maent yn cadw asesiadau risg clir ac mae cyfarpar diogelwch yr adeilad ar waith.
Maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau ac maent yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar bob eitem sydd ei angen arnynt.

Mae'r rhai sy'n gyfrifol am redeg y lleoliad
yn darparu polisïau clir ac yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn cefnogi eu staff yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer eu rolau.
Mae ganddynt bartneriaethau effeithiol â'r
ysgol ac mae'r rhieni yn gefnogol i'r lleoliad.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae llais y plant yn ffactor cryf. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Rhoddir amrywiaeth o gyfleoedd iddynt wneud dewisiadau, ac maent yn gyfforddus i ofyn am adnoddau penodol. Mae llawer o'r plant wrth eu bodd yn y lleoliad ac yn mynegi eu mwynhad. Wrth gyrraedd y lleoliad, mae'r plant yn cynllunio beth i'w wneud ar ôl amser byrbryd. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis eu gweithgareddau ac mae ganddynt y rhyddid i dreulio eu hamser ar un gweithgaredd neu symud o un ardal i'r llall.
example, children choose their activities, and they have freedom to spend their time on one

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn frwdfrydig ac yn fywiog wrth gyrraedd ac maent yn fodlon iawn. Maent yn trafod pa ddyddiau y maent yn mynychu'r lleoliad, a'r hyn y maent yn ei hoffi amdano. Dywedodd y plant eu bod yn mwynhau gweld ffrindiau, treulio amser gyda'r staff ac ymlacio ar ôl ysgol. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau da iawn. Maent yn gyfarwydd iawn â threfn ddyddiol y lleoliad.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson, gan gynnwys sawl un ohonynt yn cyfathrebu'n hyderus. Mae llawer o'r plant yn chwarae gyda phlant eraill yn gyffrous neu'n eistedd wrth y bwrdd i chwarae gem gydag aelod o'r staff.
Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn chwarae gêm ar y llawr yn y brif ystafell gydag aelod o'r staff.
Gwelsom y plant yn trafod rheolau, rhannu syniadau â'i gilydd, cydweithio, cymryd eu tro, dangos amynedd, a chael hwyl. Maent yn cael llawer o ryddid i archwilio'r amgylchedd dan do, ac yn dangos
parch at yr eiddo a'i gilydd yn gyson. Mae'r plant yn dilyn rheolau sy'n effeithio arnyn nhw ac eraill.
Er enghraifft, aros mewn rhes i ddefnyddio'r toiled neu i fynd
allan. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus iawn wrth ofyn am eu
bwyd dewisol, ac yn teimlo'n gwbl gartrefol yng nghwmni'r staff.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae, ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch eu dewisiadau eu hunain. Maent yn ymwybodol o'r adnoddau
sydd wedi'u storio yn y brif ystafell, ac o'u gallu i ddefnyddio cyfarpar TGCh a gemau. Mae'r plant yn gyfarwydd â chynnwys y sied yn yr awyr agored a gallant gael gafael ar bob math o gyfarpar da. Er enghraifft, peli, cylchoedd. Gan fod y plant yn cael dewis yn annibynnol, mae hyn yn arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a mwynhad. Nid yw'r plant dan unrhyw bwysau i gwblhau gweithgareddau penodol.

Rhoddir cyfleoedd i'r plant sy'n dda ac yn briodol ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Cânt eu cefnogi i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud.

Gwelsom blant hŷn yn rhoi esboniadau clir i'r plant iau wrth eu helpu, ac yn eu hannog i chwarae gemau pen bwrdd, chwarae rôl a gemau TGCh. Mae'r plant yn annibynnol ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, wrth ddewis bwyd, casglu eu bagiau a'u cotiau, rhannu negeseuon a defnyddio'r toiled. Gallant fynegi eu barn, gofyn cwestiynau a chynnig eu syniadau eu hunain. Dywedodd un plentyn ei fod wedi mwynhau gwneud ffrindiau â phlentyn newydd yn y lleoliad a bod yn gyfrifol am helpu eraill.

| **Gofal** a Datblygiad | **Da** |
|---|---|

Mae'r staff yn brofiadol ac yn deall y polisïau, gan eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant. Mae'r staff yn rheoli risgiau'n barhaus ac yn effeithiol ac yn ymwybodol o'u diogelwch eu hunain a'r plant. Gwelsom y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn paratoi a gweini staff, ac yn amlwg yn dilyn gweithdrefnau hylendid wrth wneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae gan y staff ddealltwriaeth fanwl o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r staff yn cadw cofnod ac yn codi pryderon pan fyddant yn digwydd mewn ffordd gyfrinachol, amserol ac effeithiol. Caiff trefniadau'r clwb eu cyfathrebu'n glir â'r staff a'r plant, gan sicrhau bod niferoedd y staff yn briodol wrth adael y brif ystafell i fynd i'r toiled neu i'r ardal awyr agored. Mae'r staff yn cerdded gyda'r plant i'r toiledau ac yn rhoi cymorth a chanmoliaeth iddynt wrth sgwrsio. Mae'n amlwg eu bod wedi meithrin cydberthnasau agos â'r plant ac yn mwynhau gwrando ar eu straeon am y dydd. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac maent yn ymwybodol o'u hanghenion unigol. Maent yn gyfarwydd â'u dyletswyddau ac arferion y lleoliad i ddiogelu a gofalu am bob plentyn. Er enghraifft, esboniodd y person â chyfrifoldeb y gweithdrefnau i ofalu am y plant ag alergeddau a'r ffordd y maent yn monitro cofnodion ychwanegol sy'n cael eu rhannu â'r rhieni mewn perthynas â rhai o'r plant.

Mae'r staff yn ymateb i geisiadau a chwestiynau'r plant ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd sy'n gynnes a chyson.
Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.
Mae'r staff yn fodelau rôl da ar gyfer y plant ac yn rhoi arferion cadarn ar waith i feithrin dealltwriaeth y plant o ymddygiadau da a chyson.
Maent yn symud o amgylch yn barhaus i gynorthwyo'r plant, ac yn eistedd wrth y bwrdd neu ar y llawr i chwarae.
Mae lefel y cyfathrebu rhwng y staff a'r plant yn dangos yn glir fod y plant yn hapus, yn gyfforddus ac yn teimlo'n gartrefol yng nghwmni'r staff.
communication between the staff and children shows strong evidence that children are

Mae'r staff yn brofiadol ac yn wybodus, ac mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda ynghylch datblygiad plentyn a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ei brofiadau dysgu.
Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau'r plant.
Wrth gefnogi'r plant yn eu gweithgareddau

, fel tynnu lluniau, chwarae gemau, gwaith technegol a chwaraeon, maent yn hyrwyddo rhyddid ac annibyniaeth.

Drwy ddilyn diddordebau'r plant, maent yn meithrin hyder a hunan barch pob plentyn.

Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg

mewn ffordd ymarferol ac mae'r staff a'r plant yn cyfathrebu'n hyderus yn iaith eu hamgylchedd.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r arweinwyr yn darparu mesurau a pholisïau effeithiol i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r clwb wedi'i leoli yn y Ganolfan Blant ac mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar gydag ardal fawr, agored a diogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau glanhau trylwyr ar waith sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Maent yn cynnal asesiadau risg pwrpasol, yn ogystal ag asesiadau risg tân effeithiol a chywir, a chânt eu hadolygu'n flynyddol. Gwelsom dystiolaeth fod tystysgrifau diogelwch yr adeilad, a chyfarpar ar waith. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r niferoedd a'r cymarebau rhwng y staff a'r plant yn gywir ac yn goruchwylio'r plant yn dda. Maent yn cadw cofrestr ddyddiol sy'n cynnig cofnod cywir o'r amser y bydd y plant a'r staff yn cyrraedd ac yn gadael y clwb. Mae'r safle yn cynnig lefel dda o ddiogelwch ac mae'r prif adeilad yn cael ei gadw ar glo bob amser. O ganlyniad, mae gan y plant y rhyddid i symud o amgylch ardaloedd dynodedig y lleoliad yn annibynnol ac yn ddiogel. Mae gan yr arweinwyr system lofnodi ar gyfer yr ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y ganolfan ac maent yn llofnodi adran ymwelwyr y daflen gofrestru ddyddiol yn ystafell y clwb.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal dan do yn cynnig amgylchedd da ar gyfer chwarae yn ogystal â datblygu sgiliau'r plant. Mae'r brif ystafell yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan fod y staff yn paratoi'r ardaloedd yn ofalus er mwyn galluogi'r plant i gael y profiadau gorau posibl. Er enghraifft, gofod i arbrofi, chwarae'n greadigol, datblygu sgiliau celf, technegol ac adeiladu. Mae'r bobl sy'n gyfrifol am redeg y lleoliad yn sicrhau y caiff gwaith papur y clwb ei storio'n gyfrinachol.

Maent yn cynnig amrywiaeth dda o adnoddau er mwyn ysgogi eu chwilfrydedd. Er enghraifft, blociau adeiladu, doliau, gemau, cornel gartref llawn cyfarpar ac amrywiaeth o deganau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau wedi'u gosod, neu wedi'u storio'n agos wrth law, a gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnwys iard chwarae fawr, sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i'r plant.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth dda ar gyfer y lleoliad, ac yn rhannu hyn ag eraill. Maent yn darparu datganiad o ddiben manwl sy'n adlewyrchu trefniadau ac oriau agor y clwb. Maent yn darparu polisïau clir ac yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r arweinwyr yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoleiddio ac maent yn drefnus wrth adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion yn rheolaidd. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cadw ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant a'r cofrestrau. Maent yn dilyn gweithdrefnau o ran meddyginiaeth a damweiniau ac yn cadw cofnodion cywir drwy gwblhau dogfennaeth a chyfleu gwybodaeth i'r rhieni mewn ffordd effeithlon.

Mae'r arweinwyr yn cyflwyno adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal ac yn dangos tystiolaeth eu bod yn gwrando ar safbwyntiau'r rhai sy'n defnyddio'r lleoliad ac yn rhoi ystyriaeth iddynt. O ganlyniad, maent yn gweithio'n barhaus i ddatblygu a gwella. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu tîm o staff sy'n cydweithio'n agos ac yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac, er bod y gwaith ar ddiwedd y diwrnod ysgol, eu bod yn mwynhau'r profiadau gwahanol gyda'r plant yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei ddarparu i'r staff a bod yr holl dystysgrifau gorfodol ar waith. Dywedodd y staff eu bod yn gallu codi materion yn hawdd ac y caiff eu gofynion unigol eu hystyried. Mae'r staff yn ymrwymedig i ddysgu Cymraeg ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg yn ogystal â diwylliant Cymru.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal da iawn. Maent yn manteisio ar y cysylltiadau cryf â'r ysgol sy'n sicrhau cyfathrebu effeithiol. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu eu cefnogi ar bob lefel. Mae'r rhieni yn gefnogol ac yn canmol y lleoliad yn fawr. Gwelsom enghreifftiau amlwg o gydberthnasau da iawn a chyfathrebu clir. Er enghraifft, y rhieni yn dangos eu mwynhad a'u diolch wrth dderbyn newyddion gan y staff wrth gasglu eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/11/2024